Beth yw Cynllun Aberthu Cyf og Meithrinfa Tir Na Nog?

1. O dan Gynllun Aberthu Cyf og Meithrinfa Tir Na Nog, mae gweithiwr Prifysgol Bangor yn arwyddo newidiad i'r Cytundeb Cyf ogaeth i dderbyn cyf og is – 'cyfnewid cyf og' – yn gyfnewid am daliad am ofal plant a ddarperir gan Feithrinfa Tir Na Nog y Brifysgol.
2. Caif gwerthoedd y f oedd meithrin eu tynnu o'ch cyf og gros, cyn tynnu treth ac Yswiriant Gwladol. Dyma sut rydych chi'n gwneud arbedion ar eich f oedd meithrinfa yn y Brifysgol.

Cymhwystra

1. Mae unrhyw weithiwr llawn amser neu ran amser ym Mhrifysgol Bangor sy'n defnyddio lle llawn amser neu ran amser ym Meithrinfa Tir Na Nog yn gymwys.
2. Cewch ddefnyddio Cynllun Aberthu Cyf og Meithrinfa Tir Na Nog ar gyfer cynifer o blant ag y dymunwch. Os yw'r ddau riant yn cael eu cyf ogi gan y Brifysgol, cewch rannu'r aberth cyf og rhyngoch chi. Fodd bynnag, dylech ystyried y rhaniad er mwyn gwneud yn fawr o'r arbedion treth gan fod mwy o fudd i drethdalwyr y gyfradd uwch.
3. Dim ond yn Nhir Na Nog y cewch chi ddefnyddio Cynllun Aberthu Cyf og y Feithrinfa.
4.

Oherwydd bod uchafswm y Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) y cewch eu talu'n cael ei gyfrifo yn ôl swm y cyflog trethadwy a dderbyniwyd, efallai y bydd hynny'n effeithio ar swm y CGY y cewch eu prynu. Dylech gysylltu â'r Adran Bensiynau os oes angen cyngor arnoch am eich

Ble mae cael cyngor annibynnol?

1. Ni all y Brifysgol gynnig cyngor annibynnol. Gall gynnig gwybodaeth am y cynllun yn unig.
2. Efallai y byddwch am ystyried ceisio cyngor annibynnol cyn penderfynu—cewch gyngor o amrywiaeth o ffynonellau, megis eich Undeb, Cyngor ar Bopeth, ymgynghorydd ariannol annibynnol, eich cyfrifydd, neu eich cyfreithiwr/ymgynghorydd cyfreithiol.

Cysylltu am gyngor pellach

1. Os oes gennych gwestiynau pellach am eich cyfranogiad yng Nghynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog, cysylltwch â buddion@bangor.ac.uk

2. Am wybodaeth ynglŷn ag Ariannu'r Blynyddoedd Cynnar yn y feithrinfa neu i newid patrwm eich trefniadau gyda'r feithrinfa/archebu sesiynau ychwanegol, cysylltwch â Meithrinfa Tir Na Nog yn uniongyrchol.

3. Ar gyfer ymholiadau ar faterion sy'n ymwneud â'r dreth, cysylltwch ag adran dreth berthnasol CThEM.

4. Dylid cyfeirio cwestiynau am bensiynau at yr Adran Bensiynau.

Ffurflenni

Darllenwch yr wybodaeth berthnasol am y cynllun cyn lawrlwytho ffurflen gais.

Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog: Cais
Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog: Adnewyddu/Cais i Newid
Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog: Tynnu Aelodaeth yn ôl